

MARI JONES (RHAGFYR 16 1784 - RHAGFYR 29, 1864)

Ym 1800 cerddodd merch ifanc o'r enw Mari Jacob Jones, a oedd yn ddim ond 16 oed ar y pryd, yn droednoeth o'i chartref yn Llanfihangel-y-Pennant i'r Bala – taith o dros 50 milltir yno ac yn ôl – er mwyn prynu Beibl Cymraeg. Bu'n cynilo am dros chwe blynedd er mwyn cael digon o arian i brynu Beibl, a'r Bala oedd y lle agosaf i'w chartref lle gallai brynu un. Cychwynnodd ar ei thaith un bore yn 1800, ond erbyn iddi gyrraedd y dref, nid oedd yr un Beibl Cymraeg ar ôl. Roedd Thomas Charles yn ddyn uchel ei barch a oedd yn trefnu ysgolion cylchynol yn yr ardal (yn cynnwys yr ysgol lle dysgodd Mari ddarllen). Pan welodd pa mor siomedig oedd Mari, cymerodd drueni drosti a rhoi ei gopi personol ef o'r Beibl iddi. Dyma fu'r ysgogiad i sefydlu y Feibl Gymdeithas Frytanaid a Thramor (sef Cymdeithas y Beibl erbyn hyn).

Ymhen amser, priododd Mari wehydd o Fryn-crug o'r enw Thomas Lewis. Bu farw yn 1864 ac fe'i claddwyd ym mynwent Capel Methodistiaid Calfinaidd Bryn-crug. Mae ei Beibl yn cael ei gadw yn archifau Cymdeithas y Beibl yn Llyfrgell Prifysgol Caergrawnt. Mae'n un o ddim ond deng mil o gopïau o argraffiad 1799 o'r Beibl Cymraeg a argraffwyd yn Rhydychen ar ran y Gymdeithas er Taenu Gwybodaeth Gristionogol.

Ar dudalen olaf yr Apocryffa, ysgrifennodd Mari Jones, yn Saesneg: Mary Jones was born 16th of December 1784. I Bought this in the 16th year of my age. I am Daughter of Jacob Jones and Mary Jones His wife. the Lord may give me grace. Amen. Mary Jones His [is] The True Onour [owner] of this Bible. Bought In the Year 1800 Aged 16.

Mae un arall o'r copïau a brynwyd ganddi yn y Bala yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru yn Aberystwyth; gweler www.llgc.org.uk am fwy o fanylion.

Mae yna lwybr cerdded yn mynd o gartref Mari yn Llanfihangel-y-Pennant i'r Bala. Ewch i wefan Cymdeithas y Beibl am fwy o fanylion:

<http://www.biblesociety.org.uk/about-bible-society/what-we-do/our-work/mary-jones/>